**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

22 Medi 2023

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

Drwy e-bost

**Ymchwiliad i Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru**

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ddydd Iau, 14 Medi 2023 i roi tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad i greu Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Yn ystod y cyfarfod gwnaethoch gytuno i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a ganlyn i'r Pwyllgor:

- Mewn cysylltiad â cham dau o'r prosiect, cadarnhad o faint mewn metrau sgwâr o ofod arddangos cyhoeddus newydd a fydd yn cael ei greu, yn ychwanegol at yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd gan y rhwydwaith o orielau.
- Gwybodaeth am y defnydd o'r wefan sydd wedi'i choladu yn sgil y defnyddwyr sy'n cyrchu gwefan y casgliad celf digidol, sef Celf ar a Cyd, ers ei lansio ym mis Mehefin 2023.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb cyn bo hir, a byddem yn hapus i dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol y dymunwch ei rhannu sy'n berthnasol i'n hymchwiliad.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.